

**Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol)
2007 (fel y'i newidiwyd), Rheoliad 22 - Penderfyniad Caniatâd
Asesiad Effeithiau Amgylcheddol**

Teitl: Ardal echdynnu agregau morol 392/393, a elwir yn 'Hilbre Swash'.

Caniatâd Rheolaethol: Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'i newidiwyd)

Gweithredwyr:

Lafarge Tarmac Marine Limited*
Portland House Bickenhall Lane
Solihull
Birmingham
England
B37 7BQ
Rhif Cwmni 02105370

Norwest Sand & Ballast Company Limited
Millfield Road
Ettingshall
Wolverhampton
United Kingdom
WV4 6JP
Rhif Cwmni 01895470

Adroddiad Rhif: Cyf: MM004/10/EIACD

Lleoliad: Ardal 392/393, a elwir yn Hilbre Swash ym Mae Lerpwl tua 12 cilometr i'r gogledd o Brestatyn ar arfordir gogledd Cymru.

** Enw Rhif Cwmni 02105370 Lafarge Tarmac Marine Limited oedd Tarmac Marine Dredging Limited ar adeg y cais.*

Cyflwyniad

Mae Ardal echdynnu agregau morol 392/393, sy'n cael ei hadnabod fel Hilbre Swash ac sydd ym Mae Lerpwl i'r gogledd o arfordir Sir y Fflint, wedi'i thrwyddedu ar hyn o bryd i Lafarge Tarmac Marine Ltd (LTM) a Norwest Sand & Ballast (NSB) Company Ltd (yr olaf yn gydfenter rhwng CEMEX Investments Ltd a Tarmac Ltd). Mae'r cwmnïau hyn wedi bod carthu agregau yn yr ardal drwyddedu bresennol, ac mewn ardal yn union i'r de, am fwy na 50 mlynedd ond, er mwyn gallu dal i garthu Ardal 392/393, cyflwynwyd cais am Drwydded Forol i'w chymeradwyo gan reoleiddwyr y Llywodraeth.

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae ardal y drwydded bresennol o boptu ffin dyfroedd Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, dim ond i garthu yn rhan Cymru o ardal y drwydded bresennol yr ymgeisiodd LTM ac NSB ac felly dim ond i Lywodraeth Cymru y cyflwynwyd y cais i gael ei

benderfynu gan Weinidogion Cymru. The responsibility for determining the application transferred from Welsh Government to Natural Resources Wales (NRW) on the 1st April 2013. The existing licence area covers an area of approximately 28.76 km² while the new application area is to be reduced by over 24% to approximately 21.76 km². Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros benderfynu ar geisiadau o Lywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Mae ardal y drwydded bresennol yn ymestyn dros tua 28.76 km² ond dim ond tua 21.76 km² yw arwynebedd y cais presennol, gostyngiad o tua 24%.

<0}

Mae LTM a NSB wedi ymgeisio am drwydded newydd i garthu hyd at 12 miliwn tonnall o agregau (tywod yn bennaf) dros gyfnod o 15 mlynedd at hyd at 1.6 miliwn tonnall y flwyddyn ond ar gyfartaledd blynyddol o 0.8 miliwn tonnall, wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y ddau gwmni. Mae LTM yn berchen ar bedwar carthwr arbennig sy'n gweithredu ar fwy na 20 o ardaloedd carthu trwyddedig yn nyfroedd y DU. O Hilbre Swash, mae LTM yn cyflenwi agregau tywod i ddociau ar lannau Mersi a gogledd Cymru. Mae NSB yn berchen doc ar afon Mersi yn Lerpwl ac yn cyflenwi tywod i ddiwydiant adeiladu'r rhanbarth yn ogystal â bod â thrwydded ar gyfer carthu yn Hilbre Swash.

Wrth benderfynu ar gais Aseiad Effeithiau Amgylcheddol, roedden ni'n talu sylw i:

- a) bob gwybodaeth oedd yn y cais.
- b) y Datganiad Amgylcheddol [ac i wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn ddiweddarach i atodi'r datganiad hwnnw];
- c) y ddeddfwriaeth berthnasol;
- d) sylwadau gan gyrff ymgynghori a'r cyhoedd ac;
- e) effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y prosiect fel y mae'n cael ei ddisgrifio ym mhenderfyniad caniatáu'r Aseiad Effeithiau Amgylcheddol.

Yn dilyn hyn, ein casgliad oedd na fyddai rhannau morol y prosiect yn effeithio'n arwyddocaol andwyol ar yr amgylchedd. Mae hyn oherwydd ein bod yn cytuno â chanfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol, ac â'r wybodaeth ychwanegol a atodwyd, yn amodol ar gynnwys yr amodau a restrir yn y penderfyniad a atodir i ganiatáu'r Aseiad Effeithiau Amgylcheddol sy'n ffurfio'r drwydded. Bydd yr amodau hyn yn lleihau prif effeithiau andwyol y prosiect.